Rhif 29 **Yr Hen Wlad** Chwefror 2001

## At Gymry Patagonia

**Tynnwyd fy sylw yn ddiweddar at y ddrama *La Dama del Alba* gan Alejandro Cason. Cyfieithwyd y ddrama Sbaeneg hon i'r Gymraeg gan y diweddar G.J. Evans yn y chwedegau pan oedd yn athro llaw-fer, teipio, astudiaethau busnes a Sbaeneg yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes. Enw'r ddrama yn y Gymraeg yw *Boneddiges y Wawr* a chafwyd ymateb da iawn iddi pan gafodd ei pherfformio yma. Mae brawd y cyfieithydd, William L. Evans, Y Groeslon, yn fodlon anfon copi o'r ddrama yna os oes yna Gwmni Drama a fuasai â diddordeb. Anfonwch ataf a gallaf innau gysylltu ag ef.**

**Aira Hughes oedd yr unig un a fentrodd ateb y cwestiynau ar ddyfyniadau o'r Beibl. Llongyfarchiadau iddi, yr oedd yn dasg anodd.**

**Yr ateb cywir cyntaf o'r het yn y dasg arferol oedd eiddo Gweneira Davies de Quevedo, Trelew. Diolch iddi hi a phawb arall a anfonodd ataf.**

**Daliwch ati i gystadlu a chofion cynhesaf atoch.**

*Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU E-bost Yr Hen Wlad yw: marian_elias@hotmail.com*

# Argyfwng arall

Ar Chwefror 20 cafwyd achos o glwy'r traed a'r genau mewn lladd-dy yn Lloegr pan gafwyd fod 28 o foch yn dioddef o'r haint.

Ymhen dau ddiwrnod yr oedd tri achos arall wedi eu darganfod yn Lloegr a gostyngodd prisiau anifeiliaid dros nos. Golyga hyn waharddiad llym ar symud anifeiliaid a phobl a fu mewn cysylltiad â hwy ac mae gwaharddiad llwyr ar allforio anifeiliaid byw a llaeth o Brydain. Effeithia hyn yn fawr ar ffermwyr Cymru gan na allant hwythau werthu eu hanifeiliaid gan fod y lladd-dai a'r marchnadoedd wedi cau. Adolygir y sefyllfa ar Fawrth 5.

Mae clwy'r traed a'r genau yn afiechyd heintus iawn a gall effeithio ar wartheg, moch, defaid a geifr. Yr arwyddion yw swigod ar y geg, glafoerio a chloffni.

Pan ddigwyddodd y clwy ar ffarm yn ardal Croesoswallt (ar y Gororau) yn 1967 bu'n rhaid difa bron i 500,000 o anifeiliaid, nifer fawr ohonynt yng Nghymru.

# Codi nyth cacwn



*Seimon Glyn*

Mae Seimon Glyn yn cynrychioli Plaid Cymru ar Gyngor Gwynedd ac yn poeni am y modd y mae cefn gwlad yn marw a'r iaith yn cael ei disodli gan y Saesneg. "Yr unig beth sy'n cael ei wneud ar y funud yw lladd y gymuned, lladd fy iaith, a lladd fy ffordd o fyw," meddai.

Dywedodd fod dyfodol pentrefi Cymraeg ym Mhen Llŷn yn dywyll ac na allai pobl leol brynu tai am na allent gystadlu â'r arian parod oedd gan y mewnfudwyr.

Pan gyhoeddodd fod angen mesurau i gyfyngu ar y mewnlifiad, fodd bynnag, cafodd ei gyhuddo o fod yn hiliol (hynny yw, creu gelyniaeth rhwng Cymry a Saeson a chenhedloedd eraill) ym mhapurau newyddion dyddiol Cymru a Lloegr a phardduwyd ei enw yn Y Cynlliad.

### Etholiad Cyffredinol

Gan fod sôn y bydd Etholiad Cyffredinol eleni yr oedd datganiad Seimon Glyn yn fêl ar fysedd y Blaid Lafur a'r Blaid Doriaidd ac mae'r sylw'n troi at arweinydd Plaid Cymru, Ieuan Wyn Jones, sy'n cael ei gyhuddo ganddynt o fod yn wan wrth ymdrin â'r mater.

### Protest yng Nghaernarfon

Ar Chwefror 17 daeth dros 500 o bobl i brotest yng Nghaernarfon a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Dywedodd Y Cynghorydd Seimon Glyn (sydd hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Tai Cyngor Gwynedd) wrth y dorf nad oedd yn edifarhau codi'r mater a'i fod wedi cael cannoedd o alwadau teleffon a llythyrau yn ei gefnogi.

Tynnodd Dafydd Iwan sylw at y ffaith fod Cernyw yn Ne-orllewin Lloegr ac Ardal y Llynnoedd yng ngogledd-orllewin y wlad honno wedi creu deddfau i gynorthwyo pobl leol i brynu tai yno. Er bod hynny'n dderbyniol yn Lloegr ystyrir gwneud hynny yng Nghymru yn hiliol. Yr oedd adroddiad yn dangos fod pobl o'r tu allan i Wynedd wedi prynu traean (33%) o'r tai yno mewn blwyddyn.

Ar ddiwedd y cyfarfod, dan lywyddiaeth Angharad Tomos, cyhoeddwyd bod Cyngor Sir Gwynedd wedi cytuno i gynnal cynhadledd i drafod y mater a chasglwyd 480 o enwau ar gyfer deiseb i bwyso ar y Cynulliad i weithredu ar frys.

# Camp Hen Nain

Mae hen nain 84 oed o Benmaenmawr ger Bangor, wedi cael cyhoeddi ei henw yn y llyfr Saesneg sydd yn enwi pawb a lwyddodd i ragori yn rhyw gamp neu'i gilydd - Y *Guiness Book of Records*. Ei champ oedd bod yr hynaf i gael ei chlymu â rhaff a disgyn i lawr o ben adeilad uchel yn Sir y Fflint a thrybowndio yn ôl (abseilio yw'r term am hyn).

Tachwedd 30 2000

# Poblogaeth i gynyddu

Yn ôl ffigurau'r llywodraeth disgwylir i boblogaeth Cymru gynyddu dros y deng mlynedd ar hugain nesaf.

Yn 1999 yr oedd 2.93 miliwn yn byw yng Nghymru ond erbyn 2030 disgwylir 3.06 miliwn.

Mewnfudo o Loegr sydd i'w gyfrif am y newid mwyaf. Yn 1999 gadawodd 53,000 Gymru a symud i wledydd eraill Prydain ond mi ddaeth 58,000 yma i fyw. Mae gwelliannau ym myd iechyd hefyd yn golygu fod pobl Prydain yn byw'n hirach. Erbyn 2016 mi fydd yna fwy o bobl dros 65 na rhai dan 16.

# Y Cyfrifiad

Gwneir arolwg manwl o holl drigolion Prydain bob deng mlynedd a chynhelir y Cyfrifiad nesaf ym mis Mai eleni.

Ond y llynedd darganfuwyd bod un blwch hanfodol wedi ei hepgor ar ffurflen Cymru. Er i bobl yr Alban sicrhau fod blwch ar eu ffurflen hwy i nodi mai Albanwyr ydynt hwy, nid fydd blwch o'r fath i Gymry ar ffurflen Cymru.

Er i Blaid Annibynnol Cymru drefnu ymgyrch fawr i wrthwynebu'r diffyg hwn, mynd rhagddynt i argraffu'r ffurflen a wnaeth y llywodraeth a swyddogion Y Cyfrifiad.


Er gwaethaf y gwrthwynebiad cryf gan bobl o bob plaid penderfynwyd gwario miliwn o bunnau ar gyhoeddusrwydd i geisio darbwyllo pawb i lenwi'r ffurflen yn hytrach na bod yr awdurdodau eu hunain yn ychwanegu llun sgwâr bach ar y ffurflen efo glud. Y gosb am beidio â llenwi'r ffurflen yw dirwy o £300 a'r posibilrwydd o garchar ond y gred erbyn hyn yw y bydd cymaint o bobl yn gwrthwynebu fel y bydd gormod ohonynt i'r Llywodraeth fedru eu cosbi.

# Mynd i ganu i Giwba

Bu 5,000 o bobl ifainc yn gweld y band *Manic Street Preachers* yn canu yn Hafana, Ciwba, ar Chwefror 17 ac yr oedd yr Arlywydd Fidel Castro yn eu mysg.

Daw aelodau'r band o'r Coed Duon yn Sir Fynwy. Dyma'r tro cyntaf i fand ganu yn Saesneg yn Ciwba ers y 1970au. Yn ystod y perfformiad mi ganodd y Manics gân brotest yn erbyn polisi'r Unol Daleithiau tuag at Giwba.

# Ffordd yr A55



Yr A55 yw'r ffordd sydd yn cysylltu Caergybi (Ynys Môn) a Gogledd Cymru ag Iwerddon. Yn y dyfodol agos bydd y ffordd ddeuol newydd yn golygu y gellir teithio o Gaergybi i Fangor (pellter o 23 milltir) mewn 10 munud o gymharu â 20 neu 25 munud o'r blaen.

Cyn dechrau gweithio ar y ffordd a thrwy gydol yr adeg yr oedd yn ofynnol i'r cwmni oedd yn gyfrifol am agor y ffordd sicrhau eu bod yn cydweithio'n agos ag archaeolegwyr rhag ofn i greiriau neu olion hanesyddol gael eu chwalu am byth. Y cwmni hefyd oedd yn talu cyflogau'r archaeolegwyr - 50 ohonynt.

Ymddengys bod yr olion a ddarganfuwyd y tu hwnt i bob gobaith. Maent yn cynnwys celc o arian parod o'r drydedd ganrif; ffarm yn Y Gaerwen yn dyddio o tua'r drydedd ganrif (yn cynnwys tŷ crwn, ysgubor (lle y cedwid ŷd) a gweithdy bychan; broits sy'n dyddio o'r cyfnod cynnar pan oedd y Rhufeiniaid newydd adael, a mynwent sydd yn dyddio rhwng y chweched a'r wythfed ganrif a 40 o feddau ynddi o gistiau cerrig yn bennaf. Hefyd cafwyd prawf fod masnachu yn digwydd efo dwyrain y Môr Canoldir a bod gweinyddu yn null y Rhufeiniaid yn parhau i fodoli ar ôl i'r Rhufeiniaid adael y wlad.


# Ffarmwr ifanc y flwyddyn

Mae bachgen ysgol o Aberdaugleddau yn yr hen Sir Benfro a gynilodd ei bres poced i brynu gwartheg, defaid, ieir a hwyaid wedi ennill y teitl Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn trwy Brydain.

Dechreuodd Ben Wonnacott, 15 oed, bedair blynedd yn ôl efo ychydig o ieir ond mae'n debygol o wneud elw rŵan o'i ffarm 10 erw y mae'n ei rhentu.

Heb unrhyw gefndir amaethyddol bydd yn codi am 6 o'r gloch bob bore i edrych ar ôl ei anifeiliaid cyn mynd i'r ysgol ac yn dychwelyd atynt fin nos. Mae wedi dechrau cyflogi rhai o'i ffrindiau ysgol i'w gynorthwyo yn ystod y tymor wyna. "Mae'n waith 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn," meddai. "Mae'r anifeiliaid yn dibynnu arna i; alla i 'mo'u hanwybyddu."

# Y Pwll Mawr



Yn y flwyddyn 1873 yr oedd 16 o byllau glo ym Mlaenafon, Sir Fynwy ble'r oedd 25,000 o bobl yn byw.

Yn 1980 caewyd Y Pwll Mawr, y pwll glo olaf un, ac erbyn hyn 6,000 sydd yn byw yn y dref a 70% o'r rheini dros 60 oed.

Yn 1982 ailagorwyd Y Pwll Mawr fel amgueddfa, cafodd ymwelwyr gyfle i ddysgu am fywyd y glowyr yno ac erbyn hyn daw 80,000 o bobl yno bob blwyddyn.

Eleni cyhoeddwyd y newydd fod Unesco wedi sicrhau Statws Treftadaeth Bydeang i ardal Blaenafon i'w galluogi i fod yn borth i holl ardal ddiwydiannol De Cymru o safbwynt ymwelwyr - sef yr un statws ag a roddir i Eglwys Gadeiriol Chartres yn Ffrainc, y Taj Mahal yn India a'r Barriff Mawr *(Great Barrier Reef)* yn Awstralia.

Bydd yr Amgueddfa ei hun yn derbyn £5 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a £400,000 gan y Bwrdd Croeso a buddsoddir £1 miliwn y flwyddyn gan Gyngor Torfaen am y 10 mlynedd nesaf. Y nod yw denu 250,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

# Yr Arglwydd Cledwyn

Bu farw'r Arglwydd Cledwyn o Benrhos, Ynys Môn ar Chwefror 22 yn 84 oed.



Yr oedd yn un o gewri'r byd gwleidyddol a bu'n Arweinydd yr wrthblaid yn Nhŷ'r Arglwyddi yn Llundain rhwng 1982 a 1992.

Cyfreithiwr ydoedd wrth ei alwedigaeth ac yn fab i weinidog ym Môn. Etholwyd ef yn Aelod Seneddol Llafur dros yr Ynys yn 1951. Rhwng 1966 a 1968 ef oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y Swyddfa Gymreig a gweithiodd yn galed i gael Datganoli i Gymru yn 1979. Yr oedd yn siomedig iawn fod nifer o aelodau o'i Blaid ef ei hun yn gwrthwynebu a methiant fu'r ymgyrch. Ymddeolodd o Dŷ'r Cyffredin y flwyddyn honno. Yn 1982 fe'i dyrchafwyd i Dŷ'r Arglwyddi.

Pan benderfynodd Dr Gwynfor Evans ymprydio i farwolaeth os na fyddai'r Llywodraeth yn cyflawni ei hymrwymiad i ganiatáu Sianel Deledu i Gymru, aeth Yr Arglwydd Cledwyn (ond fel Y Gwir Anrhydeddus Cledwyn Hughes yr adwaenid ef ar y pryd), Syr Goronwy Daniel ac Archesgob Cymru, (Gwilym O. Williams), at y Llywodraeth (y Blaid Doriaidd oedd mewn grym) i bwyso arni i greu'r Sianel. Llwyddasant a daeth S4C i fod yn 1982.

Yr oedd yn fawr ei barch gan aelodau pob plaid wleidyddol a chynulleidfaoedd y capeli Cymraeg y pregethai ynddynt pan fyddai amser yn caniatáu.

# Petrol



*Brynle Williams*

Ym mis Medi 2000 penderfynodd protestwyr atal tanceri petrol rhag gadael y purfeydd olew am fod y Llywodraeth yn codi gormod o dreth arno a busnesion cefn gwlad a ffermwyr yn dioddef yn enbyd am fod petrol yn rhy ddrud. Y canlyniad fu i bris y petrol gael ei ostwng ychydig.

Yng Nghymru bu Brynle Williams, ffarmwr o Gilcain, Clwyd, yn flaenllaw iawn yn y trafodaethau a dotiai pawb at y modd tawel, bonheddig, digynnwrf a doeth y cyflwynai ei achos.

Pan glywodd yn ddiweddar fod Cwmni olew BP Amoco wedi gwneud elw o £9.75 biliwn am y flwyddyn 2000 - sef yr elw mwyaf erioed - aeth Brynle Williams i Lundain ar ddechrau Chwefror unwaith yn rhagor i ddadlau fod angen gostwng y trethi ar betrol a diesel. Bygythiodd ragor o brotestio os na fydd y llywodraeth yn gostwng y dreth ar danwydd yn y gyllideb y mis nesaf.

# £75,000 i fardd



Cafodd un o feirdd Cymru £75,000 gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol i deithio'r byd ac i ymweld â phorthladdoedd sydd â chysylltiad hanesyddol â Chaerdydd.

"Y bwriad ydi treulio dwy flynedd yn cynllunio'r fordaith ac yna treulio tair blynedd yn teithio," meddai Gwyneth Lewis sydd yn ysgrifennu barddoniaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, "ond ni fydd modd gweld y cyfan sydd yn gysylltiedig â Chaerdydd yn y cyfnod pan oedd y ddinas ar ei hanerth fel porthladd."

# Nev Drws Nesa

Ar ôl treulio dwy flynedd ym mhellafion de ddwyrain Lloegr lle nad oedd gan y cymdogion ddim na bw na be i'w ddweud wrth ei gilydd, braf oedd cael dychwelyd i Ddyffryn Clwyd, ac yn arbennig felly i bentref cyfeillgar a chymdogol Llanfair.

Yn Ystod mis Hydref eleni fe enillodd Neville Edwards, neu "Nev drws nesa" fel y byddwn ni'n ei alw o, wobr "Cymydog Rhagorol" papur y *Free Press*. Nid yn unig yr oeddem wedi cael dychwelyd i bentref cyfeillgar yn Nyffryn Clwyd ond yr oeddem hefyd wedi bod mor lwcus â chael cymydog heb ei ail.

Fel gwobr, fe dderbyniodd Neville blât arbennig, ac ymysg y rhoddion hael a anfonwyd ato gan fusnesion lleol yr oedd "cyflenwad golchi gwallt i bara blwyddyn", meddai gan chwerthin a chyfeirio at ei ben moel! ....

gan Manon Williams (chwaer Swyn Spencer a fu yn Esquel yn 2000) Y *Gadlas*, Ionawr 2001

# Prinder Nyrsus

Mae 15 o nyrsus o Ynysoedd y Philipîn newydd gyrraedd Cymru i weithio mewn ysbyty ble mae prinder staff. Ar ôl tri mis o hyfforddiant mewn ysbyty Cymreig byddant yn gweithio yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd, am gyfnod o ddwy flynedd ac yn cael yr un cyflog â nyrsus Cymru.

Bu nyrsus o Ynysoedd y Philipîn yn gweithio ym Mhrydain ers dwy flynedd, nifer ohonynt wedi cael hyfforddiant gan Americanwyr ac yn meddu ar radd mewn nyrsio, a daeth tua 50 o nyrsus o'r Dwyrain Pell i Ysbyty Treforus, Abertawe, ym mis Hydref y llynedd.

Yn ôl Coleg Brenhinol y Nyrsus mae angen 2,000 o nyrsus newydd os yw ysbytai Cymru am atal argyfwng y gaeaf hwn - 40 yn Ysbyty Gwynedd, 15 yn Ysbyty Glan Clwyd a 60 yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

# Sylwi'n fanwl

Pan ymwelodd y bardd Danny Abse (cyn feddyg) â Chymdeithas Lenyddol ym Mae Colwyn yn ddiweddar adroddodd y stori ganlynol.

Un tro yr oedd darlithydd mewn Coleg Meddygol yn siarad â dosbarth o fyfyrwyr am ddehongli natur gwahanol glefydau.

"Os ydych chi am wneud y penderfyniad cywir," meddai, "mae'n rhaid i chi fod yn graff iawn a sylwi'n fanwl. Rhaid i chi ddefnyddio eich holl synhwyrau - gweld, clywed, arogleuo, teimlo a blasu."

Cododd wydraid o hylif melyn.

"Dyma ddŵr claf yn dioddef o'r clefyd melys," meddai, gan drochi ei fys yn yr hylif. "Mae'r blas siwgr yn hawdd i'w adnabod ynddo."

Edrychodd y myfyrwyr yn anesmwyth arno yn rhoi ei fys yn ei geg. Yna estynnodd y gwydraid i un o'r myfyrwyr. Trochodd y myfyriwr ei fys yn yr hylif a'i flasu. Aeth y gwydr o gwmpas y dosbarth a blasodd pawb y siwgr yn y dŵr.

Wedi i'r darlithydd dderbyn y gwydr yn ei ôl, dywedodd wrth y dosbarth:

"Mi ddywedais i pa mor bwysig yw eich bod chi'n sylwi. Faint ohonoch chi a sylwodd fy mod i wedi trochi *un* bys yn y dŵr ond wedi blasu bys arall?

O'r *Pentan*, Tachwedd 2000

# Ymolchi

Dywedir na fyddai'r brenin Iago'r Cyntaf byth yn ymolchi drosto o gwbl a bod arogl anhyfryd iawn ar Harri IV, brenin Ffrainc, na fyddai yn newid ei ddillad isaf glân ond yn anaml iawn. Roedd yr un peth yn wir am y bendefigaeth hefyd. Dyna paham yr oedd cymaint bri ar beraroglau yn y dyddiau hynny....

W.Jones Parry yn *Y Rhwyd*, Rhagfyr 2000

# Moch Daear




*mochyn daear*

Mae dicáu yn glefyd gweddol gyffredin ar wartheg Prydain ac er bod ymchwilwyr wedi bod yn astudio'r clefyd ers blynyddoedd lawer nid ydynt yn gwybod sut y trosglwyddir ef i'r gwartheg.

Y gred yw mai moch daear sydd ei drosglwyddo ond ni phrofwyd hynny hyd yn hyn ac mae Pwyllgor Amaeth y Sendd yn parhau i ymchwilio.

# Dal yn fyw




*Ysbyty Glan Clwyd*

Yn Ysbyty Glan Clwyd ger Y Rhyl cafodd claf ei ddarganfod yn fyw er bod y meddygon wedi dweud wrth ei deulu ei fod wedi marw.

Yr oedd Peter Parry o Dreffynnon, 70 oed, wedi syrthio yn ei gartref ac wedi anafu ei glun. Aed ag o i Ysbyty Glan Clwyd lle cafodd drawiad ar ei galon. Ceisiwyd achub ei fywyd a dywedwyd wrth feddyg ei fod wedi marw. Pan ddywedwyd hynny wrthynt gofynnodd ei deulu am gael ei weld. Sylwasant fod mymryn o symudiad yn y corff. A hwythau ar y ffordd allan o'r ysbyty daeth y meddyg ar eu holau a dweud wrthynt fod Mr Parry yn dal yn fyw.

Yr oedd yn dal mewn coma fodd bynnag a dridiau yn ddiweddarach bu farw ar ôl dioddef trawiad arall ar y galon. Clywodd y cwest ei fod yn dioddef o afiechyd y galon a bod ganddo hefyd salwch ar ei frest. "Fe fydd angen gwell trefn, yn enwedig wrth gofnodi marwolaethau pobl." meddai'r crwner.

# Tirlithriad yn Nefyn



Lladdwyd gwraig ac anafwyd ei gŵr pan lithrodd rhan o glogwyn dros faes parcio yn Nefyn ar Ionawr 2 gan ysgubo dau gar i'r môr a difrodi nifer o rai eraill.

Roedd Donald Race, 63 oed, a'i wraig Shirley, 58 oed, ar eu ffordd i siopio ac wedi stopio eu car i weld y môr pan ddechreuodd eu car lithro. Gwnaethant ymdrech i geisio agor drysau eu car ond cawsant eu dal gan ail dirlithriad o fwd a chlai a hyrddiwyd eu car 200 troedfedd i'r traeth gan dunelli o dywod, gro a mwd.

Lladdwyd Shirley Race a chludwyd ei gŵr mewn hofrennydd i Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Yr oedd y ddau wedi dod i fyw i'r ardal o Fanceinion ar ôl ymddeol yn 1999 ac yr oedd eu merch yn byw y drws nesaf iddynt a chwaer Mr Race hefyd yn byw gerllaw.

Bu dau dirlithriad arall yng nghyffiniau Nefyn ar Benrhyn Llŷn rai wythnosau ynghynt ac ymddengys mai canlyniad oedd y tirlithriadau i'r pwysau dŵr oherwydd y glaw di-baid a gafwyd rhwng yr Hydref a'r Nadolig.

Nefyn yw'r dref sydd wedi ei gefeillio â Phorth Madryn.

# Caneuon Ffydd

I ddathlu cyhoeddi'r Llyfr Emynau Newydd cydenwadol cafwyd Cymanfa Ganu yn Aberystwyth ar Chwefror 10 a deledwyd ar S4C.

Mae'r llyfr yn cynnwys 873 o emynau ac yn ychwanegol at hynny mae 87 o rai Saesneg. Archebwyd 60,000 o gopïau ohono eisoes. Mae'r llyfr hen-nodiant yn pwyso 3½ pwys.

Dyma sylwadau Angharad Tomos yn ei cholofn wythnosol yn *Yr Herald* ar Chwefror 17:

"Mawr fu'r sôn a'r trafod ar y cyfryngau - pa emynau a gafodd eu cynnwys, pa rai a gafodd eu hesgymuno.

Bu trafodaeth fywiog ar y tonau a ddewiswyd, sut oedd yr harmoni a'r gynghanedd yn amrywio rhwng y newydd a'r hen. Wrth wrando ar y trafod hwn, fe'm trawyd mor Gymreig oedd y cyfan. Anodd meddwl am wlad arall fyddai'n cynhyrfu cymaint gyda chyhoeddi llyfr emynau newydd. Ond i ni'r Cymry, mae emynau yn greiddiol i'n bod, y maent yn ffurf ar addoli, ond hefyd yn hunanfynegiant o'n hunaniaeth....."

# Y Diwydiant Dur

Ar ddechrau Chwefror cyhoeddwyd y newydd ysgytwol fod gwaith dur Llanwern ger Casnewydd yn Sir Fynwy a gweithfeydd dur llai yn mynd i gau a rhoi 3,500 o weithwyr ar y clwt yng Nghymru.



Y rheswm am hynny yw yn ôl y cwmni dur *Corus* yw cryfder y bunt a bod y cwmni yn gorfod cystadlu â chwmniau o Ewrop sy'n rhatach a lle mae'r cyflogau'n is.

Pan godwyd gwaith dur Llanwern ar ddechrau'r 1960au 'roedd gobaith y byddai'n sail i ffyniant economaidd am genedlaethau. Erbyn 1973 'roedd y diwydiant dur yn cyflogi 66,000 o bobl yng Nghymru.

Yna cyhoeddodd cwmni telegyfathreb EXi Telecoms y byddai yn barod i gyflogi rhai miloedd o staff newydd, gan gynnwys nifer o weithwyr dur.

Erbyn hyn mae'r llywodraeth yn ceisio darbwyllo'r Cwmni Dur i ailystyried eu penderfyniad.

# Rhagor o ddiweithdra

Erbyn Chwefror 20 cyhoeddwyd rhagor o ddiweithdra mewn meysydd eraill.

Bydd 300 yn colli eu swyddi yng nghwmni dodrefn Christie Tyler ym Mhenybont a Chaerffili oherwydd cwymp yn y galw am eu cynnyrch. Collir 200 o swyddi mewn ffatri sy'n cynhyrchu cydrannau alwminiwm i'r diwydiant ceir yn ardal Llanidloes a bydd y gwaith sydd ar ôl yn cael ei drosglwyddo i weithfeydd eraill y cwmni yn Lloegr.

# Copa'r Wyddfa

Mae adeilad ar gopa'r Wyddfa er 1936 sy'n cynnwys gorsaf drên, caffi a chysgodfa ond gobaith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw codi adeilad newydd yn ei le. Bydd oddeutu 250,000 o gerddwyr ynghyd â 100,000 o deithwyr trên yn galw yno bob blwyddyn.

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Llongyfarchiadau:**

◆ i bawb a gymerodd ran yn yr offeren Misa Criolla gan Ariel Ramirez, a ddarlledwyd ar S4C noswyl y Nadolig. Llwyddwyd i gyfleu awyrgylch arbennig iawn ac 'roedd y côr a'r tenor Jose Cura yn ardderchog. Breuddwyd y ddiweddar Shân Emlyn oedd y ffilm a nodwyd ar ei diwedd mai er cof amdani hi y teledwyd y rhaglen.

◆ i'r rhai a gymerodd ran yn rhaglenni ardderchog Dai Jones (teledu) a Dafydd Ddu o Eisteddfod y Wladfa (radio).

◆ i'r *Drafod* sydd newydd ddathlu 110 mlynedd o fodolaeth. Mae rhifyn Ionawr 2001 wedi cyrraedd ac mae'n ddiddorol iawn. Llongyfarchiadau i Irma Hughes de Jones am ei olygu am flynyddoedd maith.

◆ Dros y Nadolig bu Catrin Morris a'i gŵr Milton Junyent o Drelew yng Nghymru i weld ei rhieni ac i fendithio eu priodas yng Nghapel Pen-rhiw yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

◆ Deallwn fod y gwasanaeth cyntaf ers blynyddoedd wedi ei gynnal yn Lle Cul dan arweiniad Y Parchedig Robert Parry, sydd bellach wedi dychwelyd i Gymru, a bod Y Parchedig Dafydd H. Edwards wedi dechrau gweinidogaethu yna.

◆ Clywsom fod Niall Washington-Jones, 53 oed, o Gaerffili wedi bod ym Mhatagonia ym mis Rhagfyr i geisio dringo mynydd 7,000 troedfedd nad oes neb wedi llwyddo i'w ddringo hyd yn hyn hyd y gwyddys. Ym mis Rhagfyr y bu hyn. Yn ôl y sôn ni lwyddodd yn ei ymdrech i gyrraedd y copa oherwydd stormydd garw. A all rhywun gadarnhau hyn? Bu ei daid, Y Parchedig John Washington-Jones yn ficer yn Y Wladfa.

◆ Da yw clywed fod Aur Roberts, Godre'r Aran, Llanuwchllyn, Y Bala, yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty.

## ???

Chwiliwch am yr atebion cywir yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Ebrill 2, 2001 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad*.

1. Ef yw arweinydd Plaid Cymru.
2. Mae 6,000 yn byw yno ar hyn o bryd.
3. Pwy sy'n cyflogi ei ffrindiau i'w gynorthwyo?
4. Beth sy'n drwm i'w gario?
5. Mae angen 40 ohonynt yn y lle hwn.
6. Beth sy'n mynegi ein Cymreictod orau - ar wahân i'r iaith ei hun?
7. Nodir eu bod yn ddwy chwaer.
8. Beth fydd yn digwydd ym mis Mai?
9. Mae hi am deithio'r byd.
10. Ym mhle mae'r tŷ crwn a faint yw ei oed?

## CYSTADLEUAETH

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir Ddinbych a'r Cyffiniau, Awst 2001 i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Ariannin.

**Sgwrs ar dâp, oddeutu 20 munud o ran hyd, gyda rhywun dros 80 oed. Dylid cychwyn gyda gair o gefndir er mwyn rhoi'r sgwrs yn ei chyd-destun.**

Beirniaid: Gruff ac Eifiona Roberts
Gwobr: £200 (Gwobr Goffa Shân Emlyn)
Dyddiad cau: Ebrill 1 2001

# Ymwelwyr o Gymru

Mae dwy Ysgol Gyfun Gymraeg yn ninas Caerdydd ac ym mis Medi agorwyd Ysgol Gyfun Gymraeg arall yn nhre'r Barri ger Caerdydd acagorwyd yr ysgol yn swyddogol gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cynulliad Cymru.
Mae rhwydwaith o ysgolion cyfun Cymraeg yng Nghymru bellach a bydd nifer o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Glan-Tâf Caerdydd dan arweiniad Bob Pugh yn ymweld â'r Wladfa ym mis Ebrill.

*Gwilym Roberts*

## Cymdeithas Cymru-Ariannin

Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin bellach ar y We. Dyma'r rhif:
http://www.btinternet.com/~Rhoshelyg/CCA/.
Gosodwyd y dudalen gan Gwyn Jones sydd yn byw yn Y Gaiman ac mae'r safon o'r radd flaenaf.
Dyma ddatganiad Rhys Jones, Y Trysorydd, am y cyfraniadau a wnaed gan y Gymdeithas ar ôl yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd ym Mis Awst:

◆ $1500 at Dŷ Capel Y Tabernacl, Trelew
◆ $1400 at Dŷ Capel Bethel, Trefelin
◆ $800 at gostau'r Parchedig Dafydd H. Edwards
◆ Rhoddir cyfraniad i Maria Ximena Roberts am y flwyddyn 2000/2001 yng Ngholeg Harlech
◆ Cefnogwyd hefyd yn y gorffennol athrawon a gweinidogion i'r Wladfa, Yr Ysgol Feithrin, Yr Ysgol Gerdd, Canolfan Esquel a'r Amgueddfa ynghyd â'r myfyrwyr a ddaw yn flynyddol i Gymru.
◆ Mae gan y Gymdeithas tua 250 o aelodau ond dim ond 200 sydd yn cyfrannu.
◆ Bydd y Gymdeithas yn rhoi gwobr o $300 yn flynyddol er cof am Shân Emlyn mewn cystadleuaeth arbennig yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Hoffai weld mwy yn cystadlu.
◆ Mae'r Gymdeithas yn barod bob amser i ystyried ceisiadau am gymorth gan unrhyw fudiad neu berson sydd yn ymwneud â Chymreictod Y Wladfa.

**Colled** Bu farw Glynne Jones, un o gymeriadau mwyaf lliwgar byd cerdd Cymru, ar fore'r Nadolig. Yr oedd yn 73 oed. Bu'n arwain Côr Meibion Pendyrus am 38 mlynedd gan ddod ag enwogrwydd byd-eang i'r côr. Ymwelodd y côr â'r Unol Daleithiau nifer o weithiau ac yn 1979 hwn oedd y côr cyntaf o Orllewin Ewrop i ymweld â'r Undeb Sofietaidd.